Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru - Cyfalaf

## Arian i sefydliadau'r celfyddydau i brynu pethau maen nhw eu hangen i ddod drwy'r Coronafeirws

Gwnewch gais erbyn 9 Medi 2020



Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2020/21 - COVID-19: Cymorth i Sefydliadau'r Celfyddydau (Cyfalaf).**

**Awst 2020**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae’r geiriau a beth maen nhw’n feddwl yn hawdd i’w darllen a’u deall.



Efallai y byddwch chi angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu chi

Lle mae’r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â



**E-bost:** grantiau@celf.cymru

Mae’r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon......2**

**Am y Gronfa Adferiad Diwylliannol......4**

**Y Gronfa Cyfalaf......6**

Ar gyfer beth mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?......6

Pwy all wneud cais?......8

Am faint o arian rydych chi'n gallu gwneud cais?......11

**Sut i wneud cais......12**

Dyddiadau pwysig......12

Beth sydd angen i chi ei wneud......12

Manylion banc......14

Y contract diwylliannol......16

Adroddiadau......17

**Sut fyddwn ni'n gwneud ein penderfyniad......18**

**Pa wybodaeth rydyn ni ei hangen gennych chi......20**

**Beth os oes gen i gwestiwn?......23**

**Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth......24**

**Cwynion......26**

# Am y Gronfa Adferiad Diwylliannol




Arian ydy'r **Gronfa Adferiad Diwylliannol** gan Lywodraeth Cymru i gefnogi sefydliadau'r celfyddydau drwy coronafeirws.

Mae 2 swm gwahanol ar gael yn y **Gronfa Adferiad Diwylliannol**:



- Y **Gronfa Refeniw**

> Mae'r **Gronfa Refeniw** i dalu costau rhedeg eich sefydliad. Er enghraifft talu cyflogau staff a thalu am nwy, trydan a dŵr.




- Y **Gronfa Cyfalaf**

> Mae'r **Gronfa Cyfalaf** i brynu pethau unwaith rydych chi eu hangen i gadw eich sefydliad ar agor. Er enghraifft offer i wneud eich adeilad yn ddiogel i'w ail-agor.




**Mae'r ddogfen hon am y Gronfa Cyfalaf.**



Mae llawer o sefydliadau wedi cael eu heffeithio gan coronafeirws. Mae'n rhaid i ni gefnogi sefydliadau sydd fwyaf mewn angen.



Meddyliwch yn ofalus os gwelwch yn dda os oes angen i chi wneud cais am yr arian yma.

# Y Gronfa Cyfalaf

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae gennym ni £2 filiwn yn y gronfa hon. Mae’r arian gan Lywodraeth Cymru

## Ar gyfer beth mae’r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?



Rydych chi’n gallu defnyddio’r arian yma i brynu pethau sydd yn eich helpu i ddod drwy coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys pethau fel:



- Offer a gwaith sydd ei angen i adeilad fydd yn ei wneud yn ddiogel i’w ail-agor



- Offer fydd yn eich helpu chi i newid y ffordd rydych chi’n gweithio gyda phobl yn ystod y cyfnod hwn



- Offer fel bod staff yn gallu gweithio gartref



Gallwch wneud cais am ein Cronfa Cyfalaf **ac** ein Cronfa Refeniw. Ond ni ddylech chi ofyn am arian i brynu pethau fel y rhai sydd wedi eu rhestru uchod, yn y ddau gais.



Os ydych chi'n gwneud cais i'r ddwy gronfa, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthyn ni os ydyn nhw'n effeithio ei gilydd. Ac os ydych chi'n gallu gwneud y gwaith o 1 cais hyd yn oed os nad ydych chi'n cael arian o'r cais arall.



Mae'r gronfa hon i'ch helpu gyda chostau sydd gennych chi oherwydd coronafeirws **yn unig**.
Os ydych chi angen arian ar gyfer pethau eraill edrychwch ar ein cyllid eraill yma: https://arts.wales/cy/ariannu.

# Pwy all wneud cais?



Mae'r gronfa hon ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.



Mae'n rhaid i'ch corff fod yn 1 o'r mathau canlynol:

- **Cwmni Cyfyngedig drwy Warant**
- **Elusen Gofrestredig** (yn cynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
- **Corff Ymgorfforedig Elusennol (CIO)**
- **Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC)**
- **Cwmni Cyfyngedig gan Gyfranddaliadau**
- awdurdod lleol, prifysgol neu sefydliad cyhoeddus arall sy'n rhedeg gweithgaredd celfyddydau.

Rhaid i'ch sefydliad:



- Ddarparu gweithgareddau celfyddydau mae pobl yn eu mwynhau ac yn cymryd rhan ynddyn nhw. Mae'n rhaid i chi allu dangos hyn



- Gwneud o leiaf hanner ei waith mewn math o gelfyddyd rydyn ni'n ei gefnogi. Er enghraifft, dawns, cerddoriaeth, theatr.




- Gwneud y rhan fwyaf o'i waith yng Nghymru.



- Cael cyfeiriad yng Nghymru. A chyfrif banc DU yn enw'r sefydliad gyda o leiaf 2 berson wedi'u henwi fel **llofnodwyr**. Mae hyn yn meddwl bod o leiaf 2 berson wedi cytuno i arian gael ei ddefnyddio o'r cyfrif.



- Peidio bod yn ddyledus mewn arian na gwaith ar gyllid arall gan **Gyngor Celfyddydau Cymru** neu **Lywodraeth Cymru**.



Ni all y gronfa hon gefnogi:

- Unigolion
- Gwyliau a digwyddiadau
- Lleoliadau sy’n cael eu harwain gan bobl, bandiau, cyhoeddi, ffilm a theledu
- Sinemâu annibynnol
- Sefydliadau neu bartneriaethau anghorfforedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu cronfeydd sy’n cefnogi’r

# Am faint o arian rydych chi'n gallu gwneud cais?




Rydych chi'n gallu gwneud cais am rhwng £500 a £50 mil. Rhaid defnyddio'r arian hwn erbyn 31 Mawrth 2021.



Dylech wneud cais am y swm rydych chi ei angen. Mae'n rhaid i chi esbonio'n glir pam rydych chi angen y swm rydych chi'n gofyn amdano.



Rydyn ni'n meddwl y bydd y rhan fwyaf o geisiadau yn llai na £10 mil. Os oes gennych chi leoliad mawr efallai y byddwch chi angen mwy.



Os ydych chi angen gwneud cais am fwy na £10 mil siaradwch gyda ni am eich cais. E-bostiwch ni ar grantiau@celf.cymru.



Nid oes angen i chi gael arian cyfatebol. Ond efallai y bydd hyn yn gwneud i'ch cais edrych yn well.

# Sut i wneud cais







## Dyddiadau pwysig

Mae’r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn agor ar Ddydd Llun **17 Awst 2020**.

Rhaid i chi anfon eich cais ar-lein i ni erbyn 5pm ar ddydd Mercher **9 Medi 2020**.

## Beth sydd angen i chi ei wneud



1. Llenwi’r ffurflen gais ar-lein yma: https://www.GrantRequest.com/SID_1368?SA=SNA&FID=35436

   Os ydych chi’n cael unrhyw broblemau gyda hyn yna e-bostiwch ni ar: grantiau@celf.cymru.



2. Pan fyddwn ni’n cael eich cais byddwn ni’n anfon e-bost atoch chi i adael i chi wybod ein bod ni wedi ei dderbyn.



3. Byddwn yn darllen y wybodaeth rydych chi wedi’i rhoi i ni. Efallai y bydd angen i ni ofyn am fwy o wybodaeth gennych chi i wneud yn siŵr eich bod chi’n gallu gwneud cais am y gronfa hon.



4. Byddwn ni'n gwirio faint o arian rydych chi ei angen ac ar gyfer beth rydych chi ei angen. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr arian rydych chi'n gofyn amdano yn deg ar gyfer y gwaith rydych chi eisiau ei wneud.




5. Os byddwn ni'n penderfynu rhoi arian i chi byddwn yn anfon **Ffurflen Derbyn Arian a Manylion Banc** atoch chi. Llenwch hon a'i hanfon yn ôl atom ni.



6. Pan fydd gennym ni eich ffurflenni chi a'n bod ni wedi gwirio manylion eich banc, byddwn yn gallu eich ad-dalu am y pethau rydych chi wedi'u prynu. Bydd angen i chi anfon y derbynebau i ni.




Byddwn yn ymateb i bawb sydd wedi gwneud cais o fewn 6 wythnos o'r dyddiad cau.

# Manylion banc




Mae angen i chi roi gwybodaeth i ni am eich cyfrif banc. Dyma'r cyfrif y byddwn ni'n talu'r arian iddo os byddwn ni'n penderfynu eich cefnogi.





Rydyn ni angen gweld prawf:



- bod y cyfrif banc yn enw eich sefydliad.



- bod o leiaf 2 o bobl wedi'u henwi fel llofnodwyr. Mae hyn yn meddwl bod o leiaf 2 berson wedi cytuno i arian gael ei ddefnyddio o'r cyfrif



- yn dangos y cod didoli a rhif y cyfrif.




Mae'n rhaid i'r prawf fod yn llai na 2 flynedd oed. Ac mae'n rhaid iddo fod yn rhywbeth swyddogol gan y banc. Er enghraifft llythyr gan y banc.




Ni allwn dalu arian i gyfrif cymdeithas adeiladu gyda paslyfr yn unig.

# Y contract diwylliannol




Os ydych chi'n cael cymorth gan y gronfa hon bydd angen i chi gofrestru ar gyfer **Contract Diwylliannol** Llywodraeth Cymru.



Mae'r **contract diwylliannol** yn golygu y byddwch chi'n meddwl am sut i wella bywydau pobl drwy eich gwaith.

Rydyn ni eisiau eich gweld chi'n cynnwys pethau yn eich cynlluniau fel:



- cyflog teg



- cael llawer o fathau gwahanol o bobl ar eich tîm staff



- gweithio gyda phartneriaid i wella iechyd a lles




- edrych ar ôl ein hamgylchedd.



Mae hon yn rhan bwysig o'ch cais. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi manylion i ni am beth fyddwch chi'n ei wneud i wella bywydau pobl yng Nghymru.

## Adroddiadau




Os byddwch chi'n cael arian o'r gronfa hon, bydd angen i chi ysgrifennu adroddiad am sut rydych chi'n bodloni'r **Contract Diwylliannol**



Byddwn hefyd eisiau gwybod sut mae'r arian wedi eich helpu chi i:

- warchod swyddi




- cefnogi artistiaid unigol.




Bydd angen i chi wneud yr adroddiad hwn yn hwyrach yn 2021 neu 2022

# Sut fyddwn ni'n gwneud ein penderfyniad

Nid ydyn ni'n gallu cefnogi pawb. Fe fyddwn ni'n meddwl am y pethau yma i'n helpu ni i wneud penderfyniadau:



- Pa mor ddifrifol ydy eich problemau arian.



- Pa mor bwysig ydy eich gwaith i bobl yng Nghymru.



- Os ydych chi'n gallu rhoi cyfleoedd i artistiaid weithio.

Mae'n bwysig i ni gefnogi sefydliadau sydd yn:



- trin pawb yn deg



- gweithio gyda llawer o fathau gwahanol o bobl



- gweithio i gyrraedd pobl nad ydyn nhw fel arfer yn cymryd rhan yn y celfyddydau.

Rydyn ni'n arbennig eisiau cefnogi sefydliadau sy'n ceisio gweithio mwy gyda:



- pobl fyddar ac anabl



- pobl dduon a phobl o liw nad ydyn nhw'n bobl dduon



- siaradwyr Cymraeg.

# Pa wybodaeth rydyn ni ei hangen gennych chi




Mae 10 adran yn y ffurflen gais. Ewch drwy pob cwestiwn ac ateb mor llawn ag y gallwch chi.


Darllenwch y ddogfen hon yn llawn a dweud wrthyn ni am:



- eich sefydliad a pha waith mae'n ei wneud



- eich cynlluniau ar gyfer yr arian hwn a sut y bydd o fudd i bobl





- sut mae coronafeirws wedi effeithio arnoch chi



- sut byddwch chi'n bodloni ein prif nodau ar gyfer gwella bywydau pobl yng Nghymru.

Bydd angen i chi gael rhywfaint o wybodaeth yn barod:



- Eich rhif cofrestru gan Tŷ'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau neu'r Gofrestr Gydfuddiannol Gyhoeddus.



- Eich **Cod NACE**. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am hyn yma: https://ec.europa.eu/competition/mergers/cases/index/nace_all.html



- Gwybodaeth cydraddoldeb.




- Gwybodaeth gyswllt.




- Gwybodaeth am faint o arian sydd gan eich sefydliad ac unrhyw gyllid arall y gallwch chi fod yn ei gael. Yn cynnwys arian cyfatebol.



- Gwybodaeth am sut y byddwch chi’n dewis yr offer gorau. Neu’r bobl gyda’r sgiliau gorau i wneud y gwaith.




- Prawf bod eich sefydliad wedi ei sefydlu a’i drefnu’n iawn. Bydd angen i chi anfon copi wedi’i lofnodi o’ch **dogfen lywodraethu**. Mae eich **dogfen lywodraethu** yn ddogfen gyfreithiol. Mae’n cynnwys rheolau am sut y byddwch chi’n rhedeg eich sefydliad.

# Beth os oes gen i gwestiwn?



Rydyn ni eisiau trefnu'r arian hwn yn gyflym Er mwyn ein helpu ni i wneud hyn yn dda, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ateb yr holl gwestiynau yn glir ac yn onest.



Os ydych chi'n ateb cwestiwn gyda gwybodaeth anghywir efallai y bydd angen i ni gymryd eich arian yn ôl yn nes ymlaen. Ac efallai y byddwn ni'n cymryd camau cyfreithiol os byddwn ni'n credu i chi wneud hyn ar bwrpas.



Os ydych chi eisiau siarad gyda ni am eich cais os gwelwch yn dda e-bostiwch ni neu anfon neges atom ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Gwefan:** Llenwch ffurflen ar ein gwefan

**Twitter:** Anfonwch neges trydar @artswales




Byddwn yn dod yn ôl atoch chi cyn gynted ag y gallwn ni. Os ydych chi eisiau siarad gyda ni dros y ffôn yn lle anfonwch eich rhif ffôn i ni. Byddwn yn eich ffonio chi cyn gynted ag y gallwn ni.

# Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth



Rydyn ni'n credu bod gan bobl hawl i weld sut rydyn ni'n gwario'r arian sydd gennym ni.




Os fyddech chi'n hoffi dysgu mwy am hyn ewch i'n gwefan os gwelwch yn dda https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/rhyddid-gwybodaeth




Am ein bod ni'n sefydliad cyhoeddus mae'n rhaid i ni adael i bobl weld i bwy rydyn ni'n rhoi arian yn ôl y gyfraith.



Mae hyn yn golygu y gallai pobl eraill weld rhywfaint o'ch gwybodaeth.




Mae mwy o wybodaeth am hyn ar y wefan Rhyddid Gwybodaeth: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information/




Rydyn ni'n dilyn cyfraith o'r enw **GDPR (Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol)**. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu heb eich caniatâd chi. Oni bai bod cyfraith yn cael ei thorri.



Byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth gyda sefydliadau o'r tu allan sy'n helpu i'n hamddiffyn ni rhag twyll. Twyll yw pan fydd rhywun yn dweud celwydd i gael arian.



Os ydych chi eisiau gwybod mwy am hyn, darllenwch ein polisi preifatrwydd yma: https://arts.wales/cy/polisi-preifatrwydd.

# Cwynion




Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydyn ni wedi delio gyda'ch cais gallwch gwyno. Ewch i'n gwefan: [https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/cwynion](https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/cwynion)




Dim ond os ydych chi'n meddwl nad ydyn ni wedi delio gyda'ch cais yn briodol y gallwch chi gwyno. Ni allwch gwyno er mwyn ceisio newid ein penderfyniad am roi arian i chi neu beidio.